



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Proffil o Rôl – Aelod o'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau

Hyd y penodiad

Penodir aelodau'r pwyllgor craffu gan y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol am dair blynedd gyda bwlch gofynnol o 2 flynedd rhwng pob cyfnod yn y swydd.

O bob pwyllgor, bydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn flynyddol i arwain y drafodaeth. Byddant yn gwasanaethu am yr un cyfnod â phob aelod cyffredin.

Bydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn dewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn flynyddol o blith y 4 Cymrawd a ddewiswyd ar bob pwyllgor, a fydd yn goruchwylio'r broses Craffu ar gyfer y medalau/gwobrau a ddyrannwyd iddynt.

Bydd Cymrodyr ar y Pwyllgor Medalau a Gwobrau CDdC yn gwasanaethu am gyfnod o 3 blynedd gyda seibiant o 2 flynedd rhwng pob cyfnod yn ofynnol.

Bydd aelodau'r Grŵp Cyngori ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr ar Bwyllgor Medalau a Gwobrau CDdC yn gwasanaethu am gyfnod o 2 blynedd, neu am weddill eu tymor yn y Grŵp Cyngori.

Gwahoddir Cymrodyr er Anrhydedd i ymuno â'r Pwyllgor Effaith gan y Pwyllgor Materion Cyffredinol yn flynyddol, gan eistedd ar y pwyllgor am flwyddyn.

Gofynion

- Dewisir aelodau pob pwyllgor craffu Medalau a Gwobrau i gynrychioli'r ystod o ddisgyblaethau a gynrychiolir gan ein medalau. Rhoddir hefyd ystyriaeth i sicrhau bod gennym gydbwysedd o ran rhywedd ac amrywiaeth ddemograffeg gref ar draws pob unigolyn ym mhob pwyllgor.

Nodau'r rôl

- Craffu ar enwebiadau ar gyfer Medalau a Gwobrau mewn modd teg, cyfiawn a thryloyw er mwyn ystyried, sgorio a chytuno pa ymgeiswyr/timau fydd yn derbyn y medalau/gwobrau perthnasol.

Tasgau penodol

- Cyfarfod ar-lein unwaith y flwyddyn i ystyried yr enwebiadau a dderbynnir
- Derbyn a darllen yr holl enwebiadau cyn y cyfarfod craffu
- Sicrhau y caiff pob ei asesu'n drylwyr yn unol â rheoliadau a chanllawiau'r Gymdeithas
- Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau'n cael ei ddatgan ac yn derbyn ymdriniaeth briodol

- Gweithio gyda chydweithwyr y pwyllgor i gytuno ar y penderfyniadau a chofnodi tystiolaeth o'r penderfyniadau a wnaed

Cyfyngiadau

- Nid yw cymrodyr sydd ar Gyngor CDdC neu'r Pwyllgor Materion Cyffredinol yn gymwys i sefyll ar Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas.
- Ni chaiff aelodau'r Pwyllgor Medalau a Gwobrau enwebu rhywun am fedal neu ddyfarniad yn y categorïau y mae eu pwyllgor yn eu hystyried.